Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL
MEHEFIN 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 17eg Mehefin
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams (Cad) Jason Hunt, Nerys Evans, Gwilym L.Williams, Elwyn Jones, Gwilym V.Thomas
HEFYD YN BRESENNOL	Aeron M.Jones, Cynghorydd Gwynedd Bethan Williams, Clerc

1. **Ethol Swyddogion**
   Derbyniodd Meurig Williams swydd cadeirydd am y flwyddyn, ac fe gynigiwyd enw Elin Evans, fel is-gadeirydd. (Elin Evans bellach wedi derbyn y swydd)

2. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd newydd, ac fe ddiolchwyd i Jason Hunt am ei wasanaeth dros y flwyddyn.

3. **Ymddiheuriadau**
   Jane Eryl Jones, Elin Evans, Huw Williams

4. **Datgan Buddiant**
   Aeron M.Jones – materion cynllunio

5. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Mai fel rhai cywir.

6. **Materion i'w trafod:**
   a. GVT – ffens sy'n amgylchynu'r tir o gwmpas Cilgwyn – clerc wedi gofyn wrth y Cyngor Sir be maen nhw'n fwriadu'u wneud efo hi, ac fe gafwyd ymateb gan Medwyn Williams ar ran y cyngor, yn nodi fod dim bwriad ar hyn o bryd i ddymchwel y ffens, gan fod cryn dipyn o waith clirio ar ôl.
   b. NW – ceir yn gyrru ger Glyn Carrog. Cyfarfod safle 12.06.09 – Dafydd Wyn Williams, Aeron M.Jones, Bethan Williams. Nododd Aeron M.Jones fod gan Gyngor Gwynedd fwriad i osod arwyddion Araf ar y safle.
   c. ElJ – parcio ger Bro Wyled. safle 12.06.09 – Dafydd Wyn Williams, Aeron M.Jones, Bethan Williams. Adroddodd y clerc fod bwriad i edrych ar safle parcio'r ysgol yn gyffredinol, ac i ail-leoli ceir yr athrawon ac addasu'r fynedfa. Bydd cyfarfod pellach yn cael ei drefnu maes o law gyda swyddogion a staff yr ysgol. Clerc wedi gofyn eto os ydy'n bosib cael gwared â'r darn tir gwyrdd sydd o flaen 3 a 4 Bro Wyled i greu llefydd parcio, ond Adrian Williams, Cyngor Gwynedd ddim yn meddwl fod hynny'n bosib, ond mae wedi gaddo edrych eto ar y sefyllfa. Hefyd fe addawodd edrych ar y posibilrwydd o gael palmant bychan ger fynwent Rhostryfan i orfodi ceir i arafu, i atal dau gerbyd

basio'i gilydd ar y safle, h.y. *give-way system.* Nodwyd hefyd fod bwriad i roi llinellau melyn a llinell yn dynodi cysgodfan o flaen y gysgodfan bysiau ym Mhenfridd, i geisio atal ceir a faniau rhag parcio a rhwystro gweledegd. Gobeithir cael arwyddion Araf ger fynedfa Sain/Chatham hefyd, ac fe fydd archwiliad gor-yrru yn cael ei wneud ar y safle.

d. NE – coed y fynwent yn gordyfu. Clerc wedi cysylltu efo arbenigwyr.
e. MW – angen glanhau graffiti o'r gysgodfan bysiau yn Penyffridd. Nododd AMJ ei fod yn mynd i gynnal teithiau efo'r heddlu a swyddogion o'r cyngor ac yn nodi unrhyw waith clirio fydd ei angen ei wneud yn yr ardaloedd. Nododd MW fod polisi gan Gyngor Gwynedd o lanhau graffiti sy'n peri loes, ee hiliol, o fewn 48 awr.
f. HW – wal Aberalaw – angen sylw gan fod cerrig yn disgyn i'r ffordd. Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i edrych be ddylai gael ei wneud.
g. GVT – be sy'n digwydd efo cae chwarae Rhosgadfan? Nododd nad oedd yn ymwybodol fod cyfarfod wedi'i drefnu fel yr addewid a gafwyd yn y cyfarfod cyngor diwethaf gan Huw Williams. Aeron M.Jones i anfon manylion i tir at y clerc ac i ddarganfod perchnogaeth y tir cyn symud ymlaen efallai i fabwysiadu'r cae chwarae. Bydd angen trefnu is bwyllgor cae chwarae wedi hynny, cynigiodd y canlynol fod yn bresennol: GVT, AMJ, JH, ac awgrymwyd enw NW hefyd.
h. JH – polyn BT ger syrjeri Rhostryfan yn anniogel. Clerc wedi cysylltu efo BT. Swyddog BT yn ymweld ddydd Gwener, Jason Hunt wedi gaddo y bydd yn ei gyfarfod. Angen iddo edrych ar ddau bolyn, sef ger y syrjeri, ger Bro Meillion a hefyd i edrych ar y ciosg, gan fod y drws wedi malu ac yn chwifio'n agored.
i. Hysbysfwrdd i Saron – clerc wedi holi ymhle y byddai'r trigolion yn dymuno lleoli'r hysbysfwrdd. Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r clerc fynd ymlaen i archebu'r hysbysfwrdd.
j. Nododd NE fod llythyr anfonwyd at Gapel Horeb ynglyn â chyflwr gwael mynwent Rhostryfan yn cael ei drafod ym mhwyllgor yr Henaduriaeth y mis nesaf, a gobeithir cael ymateb wedi hynny.
k. Nododd AMJ fod gwaith i adnewyddu y polion ffens yn Ffrwd Cae Du ar y gweill, er na fedrith roi dyddiad pendant.

7. **Derbyn Adroddiadau:**

8. **Is-bwyllgorau:**
Is-bwyllgor y fynwent – cyfarfod 17.06.09 – 6.30p.m. Derbyniodd y pwyllgor llawn awgrymiadau'r is-bwyllgor am y prisiau newydd fel a ganlyn:

Ffioedd Mynwent Cefnfaes	O fewn y gymuned a chyn drigolion*	Tu allan i'r gymuned
Ffî hawl claddu (gan gynnwys gosod carreg)	£115.00	£365.00
Claddu	£85.00	£260.00
Ffi Hawl Claddu llwch	£75.00	£230.00

Ffî Claddu llwch	£85.00	£260.00
Ffî ymchwil i fedd	£15.00	£15.00

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	16,861.83
Cyfri Siec:	377.77
CYFANSWM	**17,239.60**

10 Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Mehefin	404.10
Cyllid y Wlad	88.40
Wyn Williams	576.00
Viking Direct – papur etc	196.06
Siôn Owen	800.00

Nododd y clerc nad ydy wedi talu PAYE ers mis Ebrill oherwydd nad ydy'r swyddfa dreth wedi danfon llyfryn talu mewn, na slip taliadau misol. Derbyniodd slip taliad blynyddol, ond cafwyd cyngor gan swyddog o'r swyddfa dreth nad oedd hon yn addas. Mae wedi gwneud tri cais am lyfryn neu slip talu. Mae gor-daliad o £250 o'r llynedd yn ddyledus i Gyngor Cymuned Llanwnda.

Cais am nawdd i'w ystyried ym mis Chwefror:
Clwb Rygbi y Gogs

11 **Materion Cynllunio**

Ceisiadau:
CO9A0287/24/MG – plot ger Trem y Werydd – cais i godi ty deulawr
Llythyr o gwyn gan drigolion sy'n byw wrth ymyl y plot – cafwyd cais diwygiedig i'r un a ganiatawyd eisoes, a bwriedir adeiladu ty deulawr fydd yn golygu fod y ty ag uchder o 15m wrth edrych o'r ffordd. Arwyddwyd y llythyr gan 18 o drigolion lleol. Teimlai'r aelodau nad ydy'r cynllun hwn yn gweddu i'r ardal, gan ei fod yn llawer rhy fawr, ac maent yn gwrthwynebu'r datblygiad. Yn wir roedd yr aelodau yn erbyn datblygu'r cynllun yma o'r cychwyn gan fod problemau traffig a phroblemau dwr ar wyneb y ffordd yn y safle ers cryn amser.

Cynllun Datlbygu Unedol Gwynedd – diweddariad
CO9A/0263/24/LL – Ty'n Rhosgadfan, Rhosgadfan – estyniad ac addasiadau i gynllun sydd eisoes wedi'i ganiatau. Teimlai'r aelodau fod y cynllun hwn allan o gymeriad yn enwedig o ran maint, ac nad ydy'n gweddu i weddill y tyddynnod sydd yn y cyffiniau.
CO9A/0264/24/LL – Nant Bach, Moel Tryfan – cais i godi twrbin gwynt 6kw ar fast 15m – pryderus fod y twrbin mor fawr ac uchel.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO9A/0288/24/LL – 2 Gerddi Benar, Ffrwd Cae Du – estyniad unllawr a balconi
Wedi'u caniatau:
Ty'n Lôn, Rhos Isaf – estyniad unllawr
Tan y Ffynnon, Rhos Isaf – estyniadau

12 **Gohebiaeth:**

a. Rhybudd Cyhoeddus – arolwg awyr o Ynys Môn – awyren wedi bod yn hedfan yn isel er mwyn cael gwneud archwilio geolegol.
b. Is bwyllgor cymunrodd Elizabeth Hughes – gwahodd cynrychiolydd i eistedd ar yr is-bwyllgor
c. Urdd Gobaith Cymru – cais am gefnogaeth i wahodd yr Eisteddfod i Eryri yn 2012 – cyfarfod yn digwydd yn Ysgol Dyffryn Nantlle 1.7.09
d. Un Llais Cymru – cyfarfod blynyddol pwyllgor Arfon/Dwyfor – 22.06.09, yn yr Institiwt, Caernarfon 7pm
e. Cynulliad – ymgynghoriad ar newidiadau i Reolau – uniaith Saesneg, clerc i anfon copi yn ôl a chopi at Alun Ffred Jones i ofyn ble mae'r Gymraeg.
f. Cylchgronnau

13 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. GLW – coed yn gordyfu ar bont Caer Moel – clerc i fynd at Gyngor Gwynedd gan ei bod eisoes wedi cysylltu efo Ffestiniog
b. NE – problemau parcio ger y Becws, Rhostryfan. Gwasanaeth Tân wedi nodi nad ydy'r sefyllfa'n dderbyniol ac wedi addo gwneud adroddiad i Gyngor Gwynedd. Clerc i checio fod hyn wedi digwydd.
c. NE – nodwyd fod rhai beddi yn Cefnfaes efo cerrig a blodau ar y lawnt yn hytrach nag ar y garreg fedd yn unig. Clerc i geisio cysylltu efo'r teuluoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm